SWYDDFA COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU

OFFICE OF THE POLICE & CRIME COMMISSIONER NORTH WALES

# Cylchlythyr Newsletter

**Cylchlythyr #47 SCHTh Gogledd Cymru – 12 Gorffennaf 2024**
**OPCC North Wales Newsletter #47 – 12 July 2024**

## CHTh yn falch o barhau cymorth i ddioddefwyr yng Ngogledd Cymru

Aeth Andy Dunbobbin, Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru a'i Ddirprwy, Wayne Jones i ymweld â Swyddfa Cymorth Dioddefwyr yn Llanelwy i ddysgu mwy am eu gwaith yn y gymuned, am bwysigrwydd derbyn arian pellach o swyddfa'r CHTh ar gyfer y gwaith a chyfarfod y tîm sy'n gweithio i sicrhau fod gan ddioddefwyr trosedd ledled Gogledd Cymru rywle i droi am gymorth pan maent ei angen.

Mae'r Ganolfan Cymorth Dioddefwyr, a gyflenwir gan yr elusen annibynnol Cymorth i Ddioddefwyr yn siop un stop ar gyfer dioddefwyr ledled Gogledd Cymru. Wedi i atgyfeiriad gael ei wneud, bydd Swyddog Cymorth Dioddefwr yn cysylltu â'r dioddefwr i ofyn iddynt am eu profiad, ac i ddarganfod pa gymorth sydd ei angen a'r dewisiadau sydd ar gael. Gellir rhoi cefnogaeth dros y ffôn, yn rhithiol neu wyneb yn wyneb. Gall unrhyw un sy'n dioddef trosedd neu ddigwyddiad trawmatig gael cefnogaeth o'r Ganolfan Cymorth Dioddefwyr. Os yw rhywun yn dewis riportio i Heddlu Gogledd Cymru, gallant gyfeirio'r person hwnnw i'r Ganolfan Gymorth. Gall dioddefwyr hefyd gyfeirio eu hunain os nad ydynt yn dymuno riportio'r digwyddiad i'r heddlu. **Darllenwch fwy yma.**



## PCC proud to continue funding support for victims

North Wales Police and Crime Commissioner (PCC) Andy Dunbobbin and his Deputy Wayne Jones visited the Victim Help Centre in St. Asaph to learn more about its work in the community, the importance of continued funding from the office of the PCC for its work and to meet the team working to ensure victims of crime across North Wales have somewhere to turn for support when they need it.

The Victim Help Centre, delivered by the independent charity Victim Support, is a one-stop-shop for victims across the whole of North Wales. Once a referral has been made, a Victim Help Officer will contact the victim to ask them about their experience of crime, and to identify their support needs and the options available to them. Support can be provided over the phone, virtually, or in-person. Anyone who experiences a crime or traumatic incident can access support from the Victim Help Centre. If someone chooses to report to North Wales Police, they can refer that person into the Help Centre. However, victims can also self-refer if they choose not to report to the police. **Read more here.**

---

## Lansio ymgyrch er mwyn i bobl ifanc ddefnyddio'r we yn ddiogel

Ar ddechrau mis Gorffennaf, ac fel mae'r gwyliau ysgol yn agosáu, mae Get Safe Online – gwasanaeth wedi'i gomisiynu gan Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd a Heddlu Gogledd Cymru, er mwyn rhannu gwybodaeth a chyngor defnyddiol efo trigolion yr ardal – yn lansio ymgyrch "Safer Kids", er mwyn annog y plant ledled yr ardal i ddefnyddio'r we yn ddiogel ac yn hyderus. Boed ar gyfer yr ysgol, er mwyn chwarae gemau neu gymdeithasu efo ffrindiau, mae plant yn defnyddio'r we fwy a mwy, ac mae'n hanfodol eu bod yn gwneud hynny'n ddiogel.

Mae Get Safe Online, un o brif ffynonellau gwybodaeth diogelwch ar-lein y DU, yn cynnig cyngor fel rhan o'r ymgyrch gan gynnwys: sgyrsiau rheolaidd gyda phlant am eu gweithgareddau ar-lein, eu harwain at gynnwys diogel, cael y wybodaeth ddiweddaraf am dueddiadau newydd, parchu terfynau oedran ac ystyried rheolaethau rhieni. **Darllenwch fwy yma.**



## Campaign for youngsters to use the internet safely launches

At the start of July and as the school holidays approach, Get Safe Online – a service commissioned by the Office of the Police and Crime Commissioner and North Wales Police to share helpful information and advice with the people of the area – is launching a 'Safer Kids'

campaign to encourage children across the area to use the internet safely, securely and with confidence. Whether for school, to game or to socialise with their friends, kids are using the internet more and more and it is vital that they do so safely.

Get Safe Online, a leading UK source for online safety information, offers advice including: regular conversations with children about their online activities, guiding them to safe content, staying informed about new trends, respecting age limits and considering parental controls. **Read more here.**

## Annogir trigolion Caergybi i gadw lle yng nghymhorthfa y CHTh a HGC

Mae Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru (CHTh) Andy Dunbobbin a Heddlu Gogledd Cymru yn cynnal cymhorthfa gyngor yn llyfrgell y dref yn Neuadd y Farchnad ar Stryd Stanley ar gyfer trigolion Caergybi a’r cyffiniau o **2-4pm ar Orffennaf 24** fel rhan o'i ymgyrch i ddod â phlismona yn agosach at bobl yr ardal. Bydd y fenter yn galluogi pobl leol drafod plismona yn eu cymunedau ac i godi gofidion a sylwadau sydd ganddynt gyda'r Comisiynydd a'i gynrychiolwyr yn Heddlu Gogledd Cymru.

Mae'r comisiynydd yn hapus i siarad am faterion sy'n effeithio trigolion yn eu cymunedau lleol. Bydd pawb sy'n bresennol yn cael 20 munud i siarad â'r Comisiynydd. Bydd yntau yno yng nghwmni cynrychiolwyr o'i swyddfa ac o Heddlu Gogledd Cymru er mwyn rhoi'r cymorth mwyaf posib i'r cyhoedd. Bydd y sgyrsiau yn aros yn gyfrinachol a bydd y Comisiynydd, swyddogion a staff yn gallu cynnig awgrymiadau eraill os oes modd i asiantaethau a sefydliadau eraill ddelio â’r problemau yn well. **Darllenwch fwy ac archebwch le yma.**



## Holyhead residents urged to book place at PCC and NWP public surgery

Andy Dunbobbin and North Wales Police are holding an advice surgery at the town’s library in Market Hall on Stanley Street for residents of Holyhead and surrounding areas from **2-4pm on July 24** as part of the PCC’s mission to bring policing closer to the people of the region. The initiative will enable local people to discuss policing in their communities and to raise any concerns or comments they might have with the Commissioner and representatives from North Wales Police.

Attendees will have 20 minutes to speak personally with the Commissioner, who will be accompanied by representatives from his office and North Wales Police, to provide the maximum possible assistance to the public. The conversations will remain confidential, and the

Commissioner, officers and staff will be able to provide further signposting if an issue can be more appropriately dealt with by other agencies and organisations.
**[Read more and book here.](#)**

---

SWYDDFA COMISIYNYDD HEDDLU
A THROSEDD GOGLEDD CYMRU

OFFICE OF THE POLICE & CRIME
COMMISSIONER NORTH WALES


Rydych chi'n derbyn yr e-bost hwn oherwydd eich bod wedi cofrestru i dderbyn ein e-byst cylchlythyrau.
You are receiving this email as you signed up to receive our newsletter updates.

Eisiau newid sut rydych chi'n derbyn yr e-byst hyn?
Cysylltwch â ni drwy socialmedia@northwales.police.uk i ddiweddaru eich dewisiadau neu ddad-danysgrifio o'r rhestr hon.

Want to change how you receive these emails?
Contact us via socialmedia@northwales.police.uk to update your preferences or unsubscribe from this list.



Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru
Pencadlys yr Heddlu
Glan y Don
Bae Colwyn
Conwy  LL29 8AW

Office of the Police and Crime Commissioner North Wales
Police Headquarters
Glan y Don
Colwyn Bay
Conwy  LL29 8AW



Gallwch ddarllen ein polisi preifatrwydd yma:
https://www.northwales-pcc.gov.uk/cy/polisi-preifatrwydd

You can read our privacy policy here:
https://www.northwales-pcc.gov.uk/privacy-policy